**Efa Gruffudd Jones**
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner



Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Hawliau Dynol a Chyfiawnder Cymdeithasol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru

Annwyl Gadeirydd,

**Ymgynghoriad: Blaenoriaethau ar gyfer y Pwyllgor Cydraddoldeb, Hawliau Dynol a Chyfiawnder Cymdeithasol**

Diolch am y cyfle i gyfrannu at yr ymgynghoriad hwn. Yn ddiweddar cyhoeddais adroddiad 5 mlynedd ar sefyllfa'r Gymraeg, sy'n darparu dadansoddiad manwl o ganlyniadau Cyfrifiad 2021 mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae'r adroddiad yn mynd tu hwnt i ffigurau'r cyfrifiad drwy graffu mewn manylder ar feysydd polisi sy'n ganolog i greu mwy o siaradwyr Cymraeg ac i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.

Fel yr amlygir yn yr adroddiad, nid maes polisi ymylol sy'n sefyll ar ei ben ei hun yw'r Gymraeg; dylai'r Gymraeg fod yn ganolog i bob agenda polisi a deddfwriaeth y bydd Llywodraeth newydd Cymru'n eu cyflwyno. Dylai'r Pwyllgor felly sicrhau bod effaith polisïau cyhoeddus ar y Gymraeg a'i siaradwyr yn cael ei hystyried fel elfen ganolog o waith y pwyllgor yn craffu ar faterion yn ymwneud â chydraddoldeb, hawliau dynol a chyfiawnder cymdeithasol.

Yn y cyd-destun uchod rwyf yn awgrymu bod dau faes penodol y dylai'r Pwyllgor eu blaenoriaethu.

## 1. Y Gymraeg fel mater cydraddoldeb, hawliau dynol a chyfiawnder cymdeithasol

Er nad yw Iaith yn nodwedd warchodedig dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn datgan bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru, ac o weithredu safonau'r Gymraeg mae'n galluogi siaradwyr Cymraeg i arfer eu hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg. Fel mae'r Comisiwn Cymunedau Cymraeg wedi ei ddadlau, yng Nghymru mae'r Gymraeg felly'n gweithredu fel pe bai'n nodwedd warchodedig. Dylai'r

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Pwyllgor felly ystyried y Gymraeg fel rhan canolog o'i waith ym maes cydraddoldeb, hawliau dynol a chyfiawnder cymdeithasol:

- Dylai'r Pwyllgor graffu ar ba mor gyfartal yw mynediad pobl at wasanaethau Cymraeg ar draws Cymru. Dylid rhoi sylw penodol i'r graddau y mae siaradwyr Cymraeg yn gallu derbyn gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Fel rhan o hyn dylid ystyried croestoriadedd profiadau pobl sy'n siarad Cymraeg.
- Yn gysylltiedig â'r pwynt uchod, dylai'r Pwyllgor roi sylw penodol i allu unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg mewn meysydd allweddol lle mae gallu defnyddio'r Gymraeg yn hanfodol i urddas, diogelwch neu lesiant unigolion. Mae hyn yn cynnwys meysydd fel iechyd a gofal cymdeithasol, anghenion dysgu ychwanegol, a'r system gyfiawnder.
- Un o argymhellion ein hadroddiad 5 mlynedd ar sefyllfa'r Gymraeg oedd bod angen ehangu cyfundrefn safonau'r Gymraeg i sefydliadau a sectorau eraill. Er mai rôl pwyllgorau eraill y Senedd fydd craffu mewn manylder ar sut mae'r Llywodraeth yn gweithredu'r ymrwymiad i ymestyn a chryfhau cyfundrefn safonau'r Gymraeg, dylai'r Pwyllgor hwn ystyried sut mae'r gwaith hwn yn gwella profiadau siaradwyr Cymraeg ac yn cynyddu cyfleoedd i unigolion siaradwyr i ddefnyddio'r Gymraeg.
- Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gwneud darpariaeth ynghylch ymyrryd a rhyddid unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg. Fodd bynnag, fel rhan o waith y Llywodraeth mewn perthynas â gwaith teg, dylai'r Pwyllgor ystyried materion yn ymwneud ag amgylchedd gwaith cynhwysol a'r graddau y mae hawliau cyfreithiol i ddefnyddio'r Gymraeg yn cael eu parchu. Dylai'r Pwyllgor hefyd ystyried sut mae gweithleoedd yn cynnig cyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith, a sut mae sicrhau cyfleoedd i ddatblygu sgiliau Cymraeg yn hollbwysig ar gyfer gwaith teg.

## 2. Cydraddoldeb, cynhwysiant ac allgau cymdeithasol

- Fel rhan o ymrwymiad y Llywodraeth i drechu tlodi plant, dylai'r Pwyllgor ystyried yn benodol effaith tlodi ar allu pobl ifanc i gael mynediad at addysg, gwasanaethau a gweithgareddau Cymraeg.
- Mae adroddiadau diweddar y Comisiwn Cymunedau Cymraeg yn argymell bod angen rhoi ystyriaeth fanwl i effaith strwythurau ac amodau cymdeithasol ac economaidd ar gyfleoedd i gaffael a defnyddio'r Gymraeg, ac ar allu pobl i gymryd rhan mewn gweithgarwch cymunedol yn fwy cyffredinol. Dylai'r Pwyllgor graffu ar sut mae Llywodraeth Cymru yn ymateb i argymhellion y Comisiwn, ac fel rhan o hynny ystyried sut mae ffactorau fel amddifadedd, statws economaidd-gymdeithasol, proffesiwn, ethnigrwydd, anabledd a daearyddiaeth yn effeithio ar gyfleoedd unigolion a chymunedau i gaffael a defnyddio'r Gymraeg.
- Yn unol ag argymhelliad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen er mwyn edrych ar faterion yn ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant mewn perthynas â'r

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Gymraeg – yn benodol mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch. Dylai'r Pwyllgor graffu ar waith y grŵp hwn, gan ystyried y materion cydraddoldeb a chydlyniant cymdeithasol sy'n bodoli mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch, yn ogystal ag ardaloedd dwysedd is o siaradwyr.

Mae nifer o'r materion sy'n cael eu trafod uchod yn debygol o fod o ddiddordeb i bwyllgorau eraill y Senedd yn benodol Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg a chwaraeon. Byddem felly yn eich annog i fanteisio ar gyfleoedd i gydweithio â phwyllgorau eraill y Senedd wrth ystyried y Gymraeg o fewn trafodaethau ar gydraddoldeb, hawliau dynol a chyfiawnder cymdeithasol.

Gobeithiaf fod y sylwadau uchod yn ddefnyddiol wrth i chi gynllunio gwaith y Pwyllgor i'r dyfodol. Dymunaf bob llwyddiant i chi yn y gwaith hwnnw a byddwn yn falch o gyfrannu ato.

Yn gywir,

**Efa Gruffudd Jones**
Comisiynydd y Gymraeg